Cynhaliwyd cyfarfod or Cyngor ar 19fed o Hydref 2026 am 7.30 o r gloch.
Yn bresennol oedd Menai Hughes, Dyfan Jones, Kay Murphy, Maria Roberts, Llio Morris a Cgh Gwennol Ellis.
Cafwyd ymddiheuriadau gan Guto Jones, Ffuon Williams, Prys Ellis a Einion Edwards.
Darllenwyd y cofnodion blaenorol ac fe'u harwyddwyd fel rhai cywir.
Datgan diddordeb ir AGEND - NEB
Gohebiaeth

1. Cafwyd llythyr gan Beverley Mason o Bentrellyncymer yn datgan ei chonsern ir gwasanaeth Sul y cofio llynnedd a bod aelod or cyhoedd wedi nodi wrthi na oedd offeiriad yn bresennol yn y gwasanaeth- pasiwyd i ysgrfifennu ati yn dweud bod y Cyngor Cymuned wedi cymeryd gofal or gwasanaeth yma ac bod gwasanaeth yn ychwanegol yn yr Eglwys

   i r rai sydd yn dymuno mynnychu. Newidiwyd strwythyr y gwasanaeth yma llynnedd ai hadolygu yn ein cyfarfod eto eleni.
2. Toiledau - Gan ein bod yn berchen ar y toiledau yma nawr cafwyd y Mesuriadau Dwr a Trydan diwethaf or Sir Conwy. Dwr 013386 a Trydan 7742 fel cofnod.
3. Llew Gwyn – cafwyd nodyn yn nodi eu bod yn dychwelyd y siec o £150 a roddwyd gan y Cyngor Bro fel cyfraniad ir Tan Gwyllt nodwyd bod yswiriant yn rhy ddrud i fedru cynnal y digwyddiad.
4. Cambrian Rali - dyddiadau ac amseroedd y rali a fydd yn cael ei chynnal ar 24 o Hydref.
5. Urdd Gobaith Cymru Sir Conwy – gofyn am gyfraniad passiwyd i gyfrannu £150.00.
6. Clear Council - yswiriant am y toiledau £63.82 wedi ei talu.
7. Carol Humphreys - anfoneb o £29.99 am y bwlbiau Cennin Pedr a brynnwyd iw plannu o amgych Cerrig y Drudion Planwyd y bwlibiau fore sadwrn 17 o Hydref.
8. Ambiwlans Awyr Cymru - llythyr yn gofyn am gyfraniad pasiwyd ei adael tan y cyfarfod nesa.
9. Elfed Williams – yn dilyn cysylltiad efo Elfed ynglyn ar Gor Yrru drwy Pentref Glasfryn cafwyd llythyr yn nodi ei fod wedi yssgrifennu at y Dirprwy Weinidog dros trafnidiaeth yn datgan ein pryder.
10. Gareth Thomas - cafwyd llythyr yn nodi eu fod yn gweithio i gwmni Playquest rhag ofn y byddwn angen adnewyddu y Parc Chwarae yn y dyfodol, wedi ei nodi.
11. Unllais Cymru - ysgrifennwyd at Unllais yn datgan ein sylw am y gost uchel yr Awdit a gofyn y gwestiwn os oedd angen dau awdit sef mewnol ac yna ei yrru mlaen i Gaerdydd y ateb oedd dyma y drefn statudol gennynt. Bydd ir Cyngorhau Bro yr ardal gael cyfarfod gyda Elfed Williams am hyn yn Mhentrefoelas yn ddiweddar ac bod Elfed Williams am basio y genadwri ir Aelodau Seneddol.
12. Ffioedd claddu - ffi claddu llwch a gosod carreg fedd y Diw David Stanley Bowls £250.00
13. Scotish Power - anfoneb wedi ei dalu £26.32.
14. Plus Net - anfoneb wedi ei dalu £26.99.
15. Gair y Cyngh Gwennol Ellis –
16. Coeden Nadolig – y clerc i gysylltu a Brenig i ofyn am goeden Nadlig ir sgwar y pentref, dywedodd Dyfan bod angen prynnu rhagor o oleuadau ir goeden Dyfan am wneud hyn.
17. Sul y Cofio – trafodwyd y gwasanaeth a fydd dan ofal Kay Murphy, bydd y colgolofn yn cael ei llnau gan Ian a gynnigiodd wneud y gwaith a diolch iddo am osod y Papi Coch yn y pentref. Pasiwyd i ofyn ir sweeper ddod i llnau a codi y dali ar y sgwar a bod y Cynghorwyr yn tacluso ddiwrnod cyn y gwasanaeth. Prynnwyd torch ar ran y Cyngor Cymuned £23.00.

18. Cyngor Sir Conwy – Treth ystafell Plwyf dim iw dalu.